# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a ailgynullwyd a gynhaliwyd ar 16 Ionawr, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Councillor M.R. Wilson (Is-gaderiydd); Y Cynghorydd J. Aviet, G. Bruce, I.R. Buckley, C.A. Cave, C.E.A. Champion, C.M. Cowpe, P. Drake, A.M. Ernest, W. Gilligan, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne, I.A.N. Perry, C. Stallard a E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd R. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol).

DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

ADRODDIAD YR YMGYNGHORYDD ALLANOL PENODEDIG – TIR YN MODEL FARM, PORT ROAD, Y RHWS –

Cyflwynwyd yr adroddiad i ddiweddaru'r Aelodau ar statws yr apêl a chyflwyno tystiolaeth newydd a oedd yn ymwneud yn benodol â'r rhesymau tybiedig a gytunwyd yn flaenorol gan y Cyngor dros wrthod y cais hybrid yn cynnwys cais amlinellol i ddymchwel adeiladau presennol a chodi 44.75ha Dosbarth B1 /B2/B8 Parc Busnes, maes parcio, tirlunio, seilwaith draenio, lliniaru ecolegol a gwaith ategol (pob mater wedi'i gadw ar wahân i fynediad) o fewn Ardal A a chais llawn i newid defnydd o amaethyddiaeth tir i barc gwledig (Defnydd Dosbarth D2) o fewn Ardal B.

Rhoddwyd crynodeb cynhwysfawr o'r modd y deliodd y Cyngor â'r cais hyd yma i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ym mhapurau adroddiad Rhan I (cyhoeddus) a gyflwynwyd.

Wrth ystyried yr adroddiad, ymrwymodd y Pwyllgor i Ran II (sesiwn preifat) i dderbyn a thrafod cyngor cyfreithiol cyfrinachol. Dychwelodd wedyn i Ran I (sesiwn gyhoeddus) er mwyn pleidleisio ar y mater ac wedi hynny

PENDERFYNWYD –

(1) BOD Rheswm dros Wrthod 1 wedi'i ddisodli gan gyflwyniad tystiolaeth ecolegol newydd nad oedd gerbron y Cyngor ar yr adeg pan benderfynodd ei resymau tybiedig dros wrthod ac felly mae'n cael ei dynnu'n ôl.

(2) BOD y Cyngor, wrth ailystyried pwyso a mesur y niwed i asedau treftadaeth yn erbyn y buddion yng ngoleuni'r dystiolaeth newydd, hefyd yn tynnu Rheswm dros Wrthod 2 tybiedig yn ôl.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Cadarnhau sefyllfa Pwyllgor Cynllunio Cyngor Bro Morgannwg mewn perthynas â'r apêl, cyn cyflwyno ymateb i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) erbyn 20 Ionawr, 2025.

MATER OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU YN FRYS –

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 RHAGFYR, 2025 A'R RHESWM (RHESYMAU) ESTYNEDIG DROS Y PENDERFYNIAD AR GAIS LIDL (YN Y CYFARFOD AR 12 RHAGFYR) –
**(Ar frys oherwydd yr angen i ddiweddaru'r Aelodau ar y gwelliant / ehangu arfaethedig ar y rhesymau a roddwyd dros y penderfyniad a wnaed ynglŷn â chais cynllunio 2022/00907/FUL. Mae hyn er mwyn ymhelaethu ar y rhesymau a roddwyd gan Aelodau dros ganiatáu'r cais hwn, i sicrhau eglurder a thryloywder llawn ar y broses gwneud penderfyniadau ynghylch hyn, ac i'r Aelodau ystyried a chymeradwyo'r diweddariad arfaethedig.)**

PENDERFYNWYD – Cytuno ar yr eglurhad arfaethedig o'r rhesymau a roddwyd dros y penderfyniad a wnaed ynghylch cais cynllunio 2022/00907/FUL.

Rheswm dros y penderfyniad

I ddarparu cofnod ysgrifenedig o'r rhesymau a roddwyd gan yr Aelodau dros gymeradwyo'r cais, er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder llawn ar y broses benderfynu ynghylch y cais, cyn i'r Aelodau ystyried a chymeradwyo cywirdeb cofnodion cyfarfod 12 Rhagfyr, 2024 yn cyfarfod arferol nesaf y Pwyllgor.